Cyfres Llanbedr | Rhagfyr, 1926 | Cyf. 26, Rhif 12.

Profwch bob peth: Rhyddid: Gwirionedd: Cariad. Deliwch yr hyn sydd dda

Yr Ymofynnydd.

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Y. Golygydd. | Y. Parch T. Oswald Williams.

— Cynnwys. —

NODION Y GOLYGYDD.
'SLAWER DYDD AR LAN CLETTWR.
LYONESSE, NEU FRO CYFAREDD.
DAI.
CANMLWYDDIANT MARWOLAETH IOLO MORGANNWG.
MARWGOFION.
NODION YR EGLWYSI.

Y Gwirionedd a'ch rhyddha chwi.

Argraffwyd gan J. D. Lewis Gwasg Gomer Llandysul.

YR YMOFYNNYDD.

Pris 3c. y mis ; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—Y Parch. T. Oswald Williams, M.A., Lampeter.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. Lewis, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

Geiriadur Beiblaidd

Y Gwaith Pwysicaf ar y Beibl a Gyhoeddwyd yn Gymraeg.

Pedair mil o Erthyglau gan 180 o'n gwyr blaenaf.

Pris 1/6 y Rhifyn.

I'w gael o Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

.. RICHARD PRICE ..

Philosopher and Apostle of Liberty.

Gan ROLAND THOMAS, M.A.

Cyfarwyddwr yr Ysgol Wyliau Gymraeg.

Gwasg Prifysgol Rhydychain, 5/-. ; *Drwy'r Post*, 5/5.

Anfoner i Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

T. E. Jones, & Co.

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers and Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, etc.

Yr Ymofynnydd

Cyfres Llanbedr. RHAGFYR, 1926. Cyf. XXVI. Rhif 12.

NODION Y GOLYGYDD.

"Pan ddaw, Nadolig Llawen
A gŵyl garedig ei gwên ;
Ar ei bwys doed hedd i'r byd
A dyddiau o ddedwyddyd."

YN ystod y mis bu farw Esgob Tyddewi wedi bod yn ei swydd am yn agos i ddeng mlynedd ar hugain, am genhedlaeth bron. Y mae llawer un yn syrthio bron heb neb ond cylch bychan iawn yn gweld bwlch o'u hol, ond ym marw yr Esgob Owen fe wel nid yn unig ei eglwys ei hun ei cholled ond Cymru benbaladr.

Marw Esgob Tyddewi

Ar wahan i'w swydd fel Esgob a'i frwydr ddygn yn erbyn Datgysylltiad a Dadwaddoliad yr Eglwys yr oedd wedi bod yn Athro Cymraeg a Phrifathro Coleg Dewi Sant yn Llanbedr, ac wedi bod hyd y diwedd o blaid addysg a Seiad y Gwledydd fel y gellir dywedyd fod Cymru, Cymraeg a phopeth a berthyn i les uchaf y genedl wedi bod yn agos iawn at ei galon. *Tragedi* fydd dwyn yr hen amser yn ol, yr amser y sonir am dano yn Llyfr Du Caerfyrddin,—"Esgyb anghyfieith, diffeith, diffydd," a gobeithio y gŵyr senedd yr Eglwys Esgobol yng Nghymru am y teimlad oedd yng nghalon Gerallt Gymro ac eraill, a theimlad sydd yng nghalonnau mwy heddiw ond odid nag erioed o'r blaen. Nid wyf yn sicr ychwaith na fedrai senedd yr Eglwys ddangos y ffordd i Senedd y Brifysgol a chredaf y bydd ysbryd Dewi Sant ac ysbrydion T. C. Edwards, T. F. Roberts a J. H. Davies yn anesmwytho calon unrhyw Sais a gais eistedd lle na ordeiniwyd i neb ond Cymro eistedd a chofied y seneddau y medrir ail actio'r ddrama o "Sedd y Perigl" yn hanes Tyddewi a Phrifysgol Cymru.

* * *

Nid yw ond naturiol troi oddiwrth y Cymro gwlatgar, y diweddar Esgob Owen, i gofio am Gymro arall a fu farw Rhagfyr 17, 1826 can mlynedd i eleni—y diweddar Edward Williams (Iolo Morganwg), y bardd a'r hynafiaethydd ac os iawn y farn ddiweddaraf medrwn hawlio i'n henwad bach ni athrylith farddonol fwyaf y genedl ond odid. Gŵyr pob un a ŵyr rywbeth am hanes llenyddiaeth ein cenedl ein dyled i Iolo am ddiogelu llawer iawn o gynnwys hen lawysgrifau ac am y copïo-dyfal. Ar sail ymchwil ddiweddar G. J. Williams, Ysw., M.A. mynnir nad oedd Iolo yn onest nid yn unig parthed Gorsedd y Beirdd ond hefyd ynglŷn a llawer o farddoniaeth o'i waith ei hun a briodolai ef i feirdd y canrifoedd cynt. Dyma fel y gweithiai, meddir, yn y "*Llenor*" am Wanwyn 1924.—

Iolo Morganwg

> "Ofer chwilio'r llawysgrifau am gopiau ohonynt (h.y. Cerddi'r mân feirdd),—yn llawysgrifau'r ddeunawfed ganrif hyd yn oed. Gwyddai Iolo Morganwg amdanynt, ac yr oedd yn ddigon o fardd i deimlo'u gwerth llenyddol. Copïodd hwy i'w gasgliadau didrefn. Yna aeth ati i weu cerddi cyflawn o gylch y dernynnach a glywsai, yn ol arfer y cyfnod. Ond wedi iddo lunio'r gerdd fe'i priodolai i un o feirdd Morganwg. Nid yw hyn oll namyn damcaniaeth, ond credaf nad oes modd arall i egluro'r cerddi rhydd hynod a swynol a dadogir ar feirdd y dalaith yn ei lawysgrifau. Hawdd adnabod ol ei fwyall ef arnynt. * * Ar y llaw arall, y mae'r cyffyrddiadau syml hynny a nodwedda'r pennillion telyn—pethau y buasai'n amhosibl i neb rhyw efelychwr, pa mor alluog bynnag y bai, eu hennill—yn profi, mi gredaf mai gwaith yr hen feirdd anadnabyddus hynny ydyw cnewllyn y caniadau."

Nid yw llyfr yr ymchwiliwr wedi'i gyhoeddi eto ac ni fedrir pasio barn. Y mae'r cyhuddiad yn un difrifol ond amser a ddengys gan bwy y mae'r gwir. Ni chredaf i fy hun fod y gair olaf wedi'i ysgrifennu am Iolo Morganwg eto.

* * *

Yn ddiweddar y mae cynnwrf wedi bod yn y gwersyll, a brwydr o eiriau. Rhai yn ymdaeru fod yr enw, y teitl yn bwysig a llawer yn barod i ofyn gyda minnau Beth sydd mewn enw? Ar hyd y blynyddoedd y mae'r gair Undodwr wedi bod yn faen tramgwydd i lawer enaid mawr fel Dr. Martineau ac eraill ond nid yr enw sydd bwysig a da y gwnaeth Dr. Gow ddangos hyn i ni yn ei lythyr diweddar lle dywed:

Beth sydd mewn enw?

"Beth ydym ni a elwir yn Undodwyr yn feddwl a gwneuthur ac ewyllysio. A gollasom ein ffydd yn rhyddid meddwl? A ewyllysiwn godi cae o amgylch ein heglwysi a chau allan o'n haddoliad y rhai a gred yn y gwyrthiau neu yn arbenigrwydd Iesu Grist? A geisiwn ddeffinio Duw yn y fath fodd fel ag i gau allan y rhai a'i deffinia'n wahanol, neu nad ydynt yn barod i'w ddeffinio o gwbl? Ni welaf i arwyddion ein bod yn gwneuthur hyn, ond os ydym yn ei wneuthur dylasem roesawu beirniadaeth y rhai a ddengys pryd a sut y'i gwnawn. Ewyllysiaf ddod at ffeithiau gwir. Yr wyf yn barod i gredu fod llawer ohonom yn gulach a mwy enwadol nag y tybiwn ein hunain, ac y medr hyn esbonio'n gwendid ond ni chredaf mae'r enw ar ba un y'n gelwir a'n gwna'n wan neu y buasai bedydd i enw arall yn ein gwneuthur yn gryf. Hwyrach fod gwir angen ein hail fedyddio, ond bydded yn fedydd tân, bedydd a roddo inni fwy o ffydd, mwy o gariad, mwy o ymgysegriad i ryddid a gwirionedd. Rhoddai unrhyw arweinydd neu feddyliwr a wnae hyn drosom fudd amhrisiadwy inni. Ni wnae rhoddi enw arall y gwahaniaeth lleiaf i'n natur fewnol. Yr ym yr hyn ydym, beth bynnag y'n gelwir. Dylasem fod yn llawer gwell nag yr ydym ond ni welaf obaith inni ddod felly drwy ymrafaelion a dadleuon diddiwedd parthed ein henw."

Ar bwys y Nadolig, pan fo'r glowyr druain yn mynd yn ol yn llechwraidd megis wedi saith mis o aberth ofer, pan fo heddwch gobeithio ar waethaf llawer cwmwl du yn sicrach nag erioed, bydded i ni fel mudiad gael ysbrydiaeth argyhoeddiad cynnes fod gennym "air arbennig" a "gwaith arbennig" i'w wneuthur dros y byd heddiw yn ysbryd Iesu.

'SLAWER DYDD AR LAN CLETTWR.

(O Gronfa Ioan Dafydd.)

RHENNID Ceredigion gynt yn bedwar cantref, ac un ohonynt oedd Cantref Castell Moyddin rhwng dwy linell, un i'r ddeheu i afon Aeron ac o Langeitho hyd Flaen Cothi a'r llall o afon Teifi ger Llanfihangel Yeroth (neu Ar Arth fel y dywedwn ni) i Giliau rhwng Cwm Tydu a Llangranog. Cynhwysai'r Cantref hwn ddau gwmwd, Mabwynion a Chaerwedros, a rhwng y ddau gwmwd fel pe tae y llif y ddwy Glettwr.

Tardd Clettwr fach ger y Meinigwynion a Chlettwr fawr wrth odre

Banc Shon Cwilt ac nid anniddorol fydd esbonio'r enwau hyn.

Rhyw gant a hanner o flynyddoedd yn ol mwy neu lai fe safai tua gogledd yr hen fanc ddioty bychan a elwid yn "Black Cock." (Tybed fod yr enwau hyn yn cadw yn fyw ymladdfeydd Ceiliogod.) Safai ar fforch y ffordd i Gapel Ficer o Rhosgoch Fach. Yn y Black Cock preswyliai dyn o'r enw Sion Sais. Drwy gydol dydd carpiog a chlytog oedd gwisg Sion tebig i *Gwilt* ac oddiwrtho ef y gelwid yr hen fanc yn Fanc Sion Cwilt. Nid tlotyn mo Sion a *smuglin* chwedl yr hen bobl oedd yn y Black Cock. Nid oedd y wisg gwiltog ond cais i droi drwgdyb oddiwrth y ty. Ymddihatrai o'r cwilt gyda'r nos a ffwrdd ag ef gyda'i gyfeillion i gyrchu'r gwirod tramor a ddadlwythid ar draeth Llanina neu Gwm Tydu. Cuddid y barilau yn y corsydd oddiamgylch hyd nes ceffid cyfle i'w dwyn yn llechwraidd ar ferlynod bychain i'r cwsmeriaid pell ac agos. Sicr fod Sion fel llawer i Farchog y Ffordd Fawr megis Dick Turpin ac ereill yn enwog cyn rhoi ohono ei got a'i enw i'r hen Fanc, "Hen le noeth heb lwyn o eithin."

Ar gydiad y tri phlwyf, Llanwenog, Llanarth a Llandysul y mae tair o gerrig gwynion ar dir Meini Gwynion. Nid oes ond un o'r cerrig ar lan erbyn hyn, ac un ar led orwedd a'r drydedd wedi'i hysbeilio i fod yn bost iet yn rhywle. Meini Coffa, meddir, yw'r meini hyn ar feddau neu i gofio gwroniaid Ceredigion a syrthiodd mewn brwydr yn y flwyddyn 980. Dywed yr hen Frutiau, "O.C. 980 y daeth Hywel ab Ieuaf a llu mawr o'r Saeson gydag ef i gyfoetheu Einon ab Hywel Dda ac yna y bu ymladd tost rhyngddynt yn Mrwydr Llanwenawc (yn Ngheredigion); a Gotffrid ab Harallt yn gweled, a ddaeth a'i lu hyd yn Nyfed ac a'i diffeithiasant ac a dorrasant Eglwys Dewi Mynyw."

Mynnir mae'r ymosodwyr hyn oedd Hywel "Ddrwg" ab Ieuaf ab Idwal Foel ab Anarawd ab Rhodri Mawr tywysog Gwynedd ynghyd a'r Saeson a'r Daniaid, y Gwyr Du dan Godffrid ab Harallt.

Gelwid Hywel yn Hywel "Ddrwg" am ei fod yn ymgynghreirio a gelynion ei genedl yn erbyn ei gâr Einon ab Hywel Dda tywysog cyfreithlon Ceredigion. Wedi tirio yn Aberdaugleddyf a chyrchu Penfro a Chaerfyrddin gan ladd a llosgi ar eu taith—nes dod i ddyffryn Clettwr a chyfarfod a gwŷr Ceredigion dan Einon. Wedi ymdrech waedlyd gorfod i'r estron ffoi a mynnir fod y Meini Gwynion yn nodi man yr ornest a'r fuddugoliaeth ac yn coffhau y gwŷr dewr a syrthiodd yn "gwaith Llanwenog" fel y'i gelwid. Costiodd yr ymgyrch yn ddrud ac medd yr hen Frut am yr amser hwnnw,—"a bu farwolaeth fawr ar anifeiliaid yr holl ynys Prydain . . . ac yn yr amser y bu drudaniaeth yn holl ynys Prydain megis y bu farw y bobl gan newyn . . . ac yn eu newyn gan drudaniaeth yr amser hwnnw y dechreuwyd bwyta cregyn y mor yn Neheubarth."

Bob tro y bydd gwŷr Ceredigion yn bwyta cocos bydded iddynt gofio am yr hynafiaid a fu farw ac a goffheir gan y Meini Gwynion.

Yng Nglandwr ar lan Clettwr Fach ac ym Moyddin y trigai Tomos Dafydd Rhys. Yr oedd yn wr cefnog, yn berchen ar ei ddwy fferm, a sicr fod Mr. Rhys yn un o Fedyddwyr Cyntaf y Sir. Adeiladodd gapel ar ei dir ei hun yng Nglandwr ac a symudwyd wedi hynny i Grugymaen* a Gorsgoch. Dyn ansefydlog a chrwydredig o feddwl ydoedd, aelod o eglwys Llanarth ac wedi'i esgymuno gan ficer Llanarth. Ymaelododd ym Mhantycreuddyn, ond oherwydd anghydfod rhyngddo a Stephen Hughes ymadawodd a'r Presbyteriaid gan ymaelodi yn Rhydwilym.

Oherwydd iddo gael ei esgymuno, ni chleddid mohono ym mynwent Eglwys a mynnir ei fod wedi'i gladdu

---

* Nid yw'r llwybr o Landwr i Grugymaen yn eglur i mi, oherwydd nid capel y Bedyddwyr fu Crugymaen ac yr oedd David Jenkins yn un o weinidogion Cilgwyn, Caeronnen a'r cylch tua hanner y ddeunawfed ganrif.—(Gol.).

ym mynwent yr hen gapel dadfeiliedig ym Mhenlannoeth ar ei dir ei hun. Y mae'r cerrig beddau dan y grug a'r pridd o fewn ei furiau a hwyrach fod un ohonynt yn nodi man fechan bedd yr aflonydd Domos Dafydd Rhys.

Gyda hynyna o ragair, darluniaf rai o hen gymeriadau digri a hen arferion bywyd slawer dydd ar lan Clettwr. Gynt yr oedd yma hen gymeriadau "smala," gwreiddiol a charedig a llawer ohonynt yn ddoniol dros ben ar ambell dro. Cofia llawer un am enwau Bensia y Teiliwr, Sioni Eli, Dai Pwllybroga, Dai Sion Bach, Elias y Crydd, Dai Cent, Sion yr hewl a Daniel Book.

Daeth Bensia a Shoni i helbul unwaith oherwydd i'r ddiod eu troi yn Feccas. Cyhuddid Bensia o sialco pob ty ar ymyl y ffordd rhwng Synod a Llanarth a Sioni o gyhoeddi fod pob ty wedi'i sialco i'w dynnu i lawr gan Fecca, oni thelid i Sioni am beidio. Nid oedd na *pholice* na *lockup* ond cwstabl a dyn diniwed a charedig, cyfaill mynwesol y ddau oedd y cwnstabl. Pan oedd y ddau yn y cert dan ei ofal a'u hwynebau tuag Aberteifi ar fanc Blaen Cwmpridd dihangasant gan guddio yn nhai cyfeillion. Ni thrwblwyd ryw lawer am danynt am y gwyddid beth oedd wedi eu troi yn Fecca's. Stori arall oedd gan y Cwnstabl a direidi yng nghil ei lygad, "Howbeth! Rhois Shoni fonclust i'r ceffyl wrth ddianc a chymaint a fedrwn wneuthur oedd dal pen hwnnw rhag iddo yntau fynd yn Fecca."

Dro arall bu *wadger* rhwng Bensia a Sioni y taflai'i watch yn seren a chynffon dros dy John Hunt i'r ardd tu ol ac na byddai ddim gwaeth, "welwchi!" Gwnaeth hynny ac ennillodd y wadger a chafodd y watch yn y pâm cennin. Pwy a'i hadwaenai na fedr ddychmygu Bensia yn rhoir watch wrth ei glust ac yn gwaeddi "Dic! dic! dic! dim gwath welwchi . . Beej y boj welchwi." Dyma eiriau llusg Bensia. *Happy go lucky* ydoedd drwy gydol bywyd ac y mae gair llusg dyn yn ddangoseg o'i gymeriad yn fynych iawn.

Gair llusg Elias y Crydd oedd "O Brysur." Yr oedd yn allwedd i'w gymeriad. Dyn tawel, distaw, cariadus ydoedd, yn caru pawb ac yn cael ei garu gan bawb. Beth bynnag a glywai yn ddrwg yn cael ei adrodd am gymydog nid oedd ail adrodd arno. Ni ddywedai ddim ond *O Brysur* dyna i gyd.

Gair llusg David Davies, Crugyreyr oedd "*Wrdd one anwl*" hynny yw wirionedd annwyl ac yr oedd y gwirionedd yn annwyl ganddo. Ni ddywedai anwiredd ar un telerau. Ar ol iddo ddywedyd y geiriau hyn, yr oedd ei air yn ddeddf.

Hen gymeriad gwreiddiol arall oedd Peggi Tyffacced. Arferai Peggi roddi *ffacced* ar y bwlch o flaen y ty pan oddicartref. [Nid wyf yn sicr fod odid neb heddiw yn gwybod ystyr y gair. Y mae ef a'r ffacced wedi mynd allan o arfer ers llawer dydd ond dywedir wrthyf gan un a welodd y *ffacced* o flaen ty Peggi mae eithin ydoedd wedi'u gosod fel yr oedd y brigau allan o'r ddwy ochr a'r bonion yn mynd dros ei gilydd yn y canol lle'u clymid a chorden dew fel yr ymddangosai'r ffacced fel *bwrn* neu bel o eithin a'r pigau allan i bob cyfeiriad fel na charai yr un iar fynd trwyddo. Y mae Peggi a'r ty a'r ffacced wedi mynd heb neb ond ambell henafgwr i gyfeirio at y man lle bu.]

Y mae'r hen gymeriadau gwreiddiol a diniwed wedi mynd; a llawer o hen rinweddau da gyda hwynt.

Ni cheir helwriaeth fel slawer dydd. Cofiaf am nhad a Jack y Fadfa mewn rhyw awr neu ddwy wedi lladd ar Waen Crug yr Eryr a'r Fadfa faich o ysgyfarnogod fel yr oedd Dai Sion Bach yn griddfan "*Aca Beth*" o dan ei lwyth. Son am bysgota, beth pe gwelai pysgotwyr heddiw Dai Sion Bach hyd ei geseiliau yng Nghlettwr wrth rwyda ac yn dal ysteneidiau o bysgod nid shildod fel a welir heddiw. Nid oes gegin mwy a thân ar lawr dan fantell y simnai lwfer. Pwy na chofiai hirnos gaeaf a'r oriau hapus ar ryw hen aelwyd gysurus. Yr holl deulu'n gyfan o amgylch y tân mawn, a hwnnw'n

taflu'i wres i bob cyfeiriad. Fan draw yn y gornel y mae gwr y ty yn ddiwyd yn gwneuthur lletwad neu lwy bren a'r gwas mawr heb fod ymhell yn plethu wyntell neu "*lip*," a'r gwas bach yn rhyw fath ar *Shon Segur* (er fod y gair a'r peth wedi mynd allan o arfer gwlad ers tro byd bellach) yn dal y gannwyll iddynt.

Tu ol iddynt a rhyngddynt a'r ffenestr y mae y forwyn fawr wrth ei rhod yn nyddu, yn cerdded yn ol a blaen gan estyn y rholyn o'r chwerfan ac yn canu'i holl ofidiau i ffwrdd wrth ei ddirwyn yn dwysg.

Yn y gwanwyn fe'u gwelid yn troi allan ben bore i ladd tyweirch ar y rhos—rhos Llawcwrt neu'r Darren. Y dynion yn lladd yn y pyllau a'r merched yn eu siacedi gwyn yn eu taenu ar led i sychu ar y waen gan ddychwelyd adref fin hwyr a llais yr afar wanwyn uwchben. Hyfryd gweld y fedel ar y maes a'r fforman fel cadfridog y fyddin neu wrando ar su y bladur neu swn y rhip. Digon gwir fe geir hwrr y peiriant dyrnu yn yr ysgubor ond nid oes fiwsig yn ei hwrr fel yng nghnoc cyson y ffustiau ar y "plancau."

[Y mae'r hen arferion yn diflannu. Ni wyr y do sy'n codi am ffust, rhod nyddu na haearn tyweirch. Mae'r hen wynebau wedi cilio heb nemor un yn aros ac wrth fynd drwy'r hen ddyffryn y mae fel bro hud imi bellach a dychmygaf glywed yr hen leisiau yn dod gydag awel yr hwyr a minnau'n ol ar lan Clettwr 'slawer dydd. Y mae'r hen ddyffryn yn aros a'r hen fryniau. Y mae'r hen iaith yn fyw ar wefus y werin ac y mae'r atgofion yn felys a slawer dydd yn wynnach ac anwylach yn fy ngolwg nag erioed o'r blaen.]

LYONESSE, NEU FRO CYFAREDD.

GAN ANTHROPOS.

"*He was a man who used to notice such things.*"

Thomas Hardy.

MEWN llyfr lled newydd o ran ei ymddangosiad trwy'r wasg, yn dwyn yr enw "Blodeugerdd," neu yn fwy cywir—"An Anthology of Modern Verse," wedi eu dethol gan A. Methuen, gyda rhagdraeth rhagorol gan Robert Lynd, ceir casgliad o ganeuon y prifeirdd Seisnig yn y cyfnod hwn. Yn eu plith y mae Thomas Hardy, ac iddo ef y cyflwynir y llyfr. Nid ydyw efe yn fardd newydd o ran oedran, ond cydnabyddir ef fel y mwyaf sydd ar y maes. Felly y cyferchir ef ar ddechreu'r llyfr hwn—"greatest of moderns." Safle led eithriadol ydyw yr eiddo ef. Y mae yn canu ers llawer blwyddyn, ond erys ei awen yn ieuanc, a'i weledigaeth yn glir. Nid ydyw amser wedi cyffwrdd a'i awen, a chymer ei le yn naturiol yn y flodeugerdd newydd, fel pren bytholwyrdd, a'i ddail heb wywo yn y gaeafau hir.

Ym mysg y caneuon a ddetholwyd o waith Thomas Hardy yn y llyfr uchod, y mae dwy gân sydd yn cynrychioli dau gyfnod ym mywyd y bardd. Y mae'r naill yn fynegiad o ramant bore ei oes, pan oedd efe ar ei ymchwil am dir cyfaredd barddoniaeth, —y tir pell. Yr enw a roes Edgar Allan Poe ar y diriogaeth gyfriniol honno ydoedd El Dorado,—

"Ymlaen mae El Dorado."

Enw arall a'gwahanol sydd gan Thomas Hardy, ond yr un peth a olygir gan y ddau fardd.

When I set out for Lyonesse
A hundred miles away,
The rime was on the spray,
And starlight lit my lonseomeness
When I set out for Lyonesse
A hundred miles away.

"Lyonesse,"—dyna fro cyfaredd, ac yno cychwynai'r bardd ar ei hynt. Pa le y mae'r wlad wen? Nid oes sicrwydd am ei lleoliad daearyddol. Nid ydyw ei henw ar unrhyw barthlen ddaearyddol. Yr oll a ddywedir ydyw ei bod ymhell—"a hundred miles away." Dyna'r daith—dim llai na chan milldir. O ble? O bob man. Nid oes dren na modur yn gwybod dim am dani. Rhaid cerdded y milldiroedd hynny, a wynebu'r dieithrwch, annhraethadwy. Taith unig ydoedd wrth oleu'r ser, a'r llwydrew ar y berth. Felly yr aeth y bardd ar ei ymchwil, heb wybod beth oedd yn ei aros. Beth a welai wedi cyrraedd Lyonesse? Ni allai neb ragfynegi hynny,—yr un proffwyd, na'r un dewin ar y ddaear.

Ond aeth yno, rywsut. Ni chollodd ei ffordd. Ac wedi bod am ennyd ym mro'r gyfaredd anfarwol daeth yr adeg iddo ddychwelyd. Beth oedd ei brofiad wedi dod yn ol?

When I came back from Lyonesse
With magic in my eyes,
All marked with mute surprise
My radiance rare and fathomless,
When I came back from Lyonesse
With magic in my eyes.

Dyna'r praw iddo fod ym mro hud. Yr oedd y gyfaredd oedd yn ei lygaid yn bradychu'r ffaith. Yr oedd rhyw ddisgleirdeb na ellid ei esbonio ar ei wedd. Nid rhyw lygaid llonydd, difynegiant oedd ganddo wedi ymdaith yn y wlad tu hwnt i'r ffiniau gweledig a materol. Daeth yn ol gydag etifeddiaeth anfesurol. Yr oedd y gyfaredd wedi dod yn rhan ohono ef ei hun. Diwrnod cofiadwy oedd hwnnw pan ddychwelodd adref,—

When I came back from Lyonesse
With magic in my eyes.

Ac yn y goleuni hwnnw na thywynnodd ar dir na mor, daeth i weled pethau oedd o'i amgylch mewn ystyr newydd. Rhaid mynd i fro cyfaredd er cael y gweledlad hwnnw sydd yn treiddio drwy bob llen a gorchudd, ac nid oes dim yn gyffredin ganddo.

Earth is crammed with Heaven,
And every common bush afire with God.

Hoffter pennaf Thomas Hardy wedi bod yn Ninas Cyfaredd oedd sylwi ar bethau cyffredin, a gweled rhyw ystyr newydd yn yr oll. Y mae pob bywyd a phob gwrthrych yn gweddnewid os bydd y gyfaredd yn llygaid y sawl fo'n sylwi arnynt. Efe sydd yn eu gweled mewn gwirionedd. Ac wedi iddo ef eu datguddio, daw eraill i geisio edrych ar bethau cyffredin drwy ei lygaid ef. Pwy a draetha werth y gweledydd ar bob rhandir? Onid efe sydd yn cyfieithu pethau sydd yn agos atom, ac eto ymhell oddiwrthym, ac yn eu gwisgo mewn iaith a ddeallwn ni? "The function of poetry is to make the life of man more full and real." Y mae hudlath athrylith yn urddasoli y cyffredin, ac yn gwisgo pob golygfa yn y lliwiau cyfareddol.—

When I came back from Lyonesse
With magic in my eyes.

Cân y bore ddydd oedd honno. Dyhead awen ieuanc yn nhwymyn antur a glewder enaid. Ym mhen blynyddau lawer, y mae Thomas Hardy yn cyffwrdd llinynau'r delyn ac yn canu alaw wahanol; yr oedd y cyweirnod wedi newid yn ei brofiad. Pennawd y gân honno ydoedd "Ar ol hyn"—"Afterwards." Y mae yn meddwl am yr adeg pan fyddai wedi gadael y fuchedd bresennol, a'r hanes am dano yn ddim ond atgof yn yr ardal lle yr adwaenid ef gynt.

Dyna fis Mai yn dod, a'r awel yn ysgwyd y dail irlas, a sidannaidd. Golygfa sydd yn llonni calon ydyw ymdaith mis Mai. Cerid ef gan

Ddafydd ap Gwilym, ac annwyl ydoedd gan Domas Hardy. Beth a ddywed y cymdogion am dano pan ddel mis Mai? Hwyrach mai dyna fydd yr ymgom rhwng y naill a'r llall.—

"*He was a man who used to notice such things.*"

A thrachefn pan fyddo'r gwyll yn dod, a'r dydd yn cau ei lygad, gwelir y cudyll (*hawk*)—aderyn yr hwyr, yn gwibio drwy'r cysgodau—mor ddistaw a diferiad y gwlith. Dacw ddraenen unig ar y llechwedd, a'r gwyntoedd wedi anffurfio ei thegwch, a'r cudyll yn disgyn arni ar ei dro. Y mae rhywun yn digwydd edrych ac yn meddwl ynddo ei hun—"Yr oedd hon yn olygfa gynefin iddo ef." "This must have been a familiar sight." Ciliasai'r bardd, ond arhosai yr argraff,—y pethau a welsai ef wedi bod ym mro'r gyfaredd. Heb honno ni fuasai wedi gweled y cudyll ar y ddraenen, fin nos.

Y mae'r nos yn dwyshau, a dyna'r twrch daear yn mentro o'i ymguddfan ac yn cerdded yn ofalus dros y glaswellt. Ond daw rhywun heibio, ac y mae yn gweld y creadur bach ar ei hynt. Beth a wna? Ai ei ladd yn ddisyfyd? Nage, y mae'n cofio am un oedd yn gyfaill twrch daear, a phob creadur bach diniwed, ac yn meddwl ei fod ef wedi mynd i ffwrdd. Pwy a gymerai ei le? "He was a man who used to notice things." Cafodd y twrch daear ei arbed er ei fwyn.

Ac ar ryw ddydd o arwyl, pan oedd cloch y llan yn cnulio ei chenadwri, a'r awel yn cludo'r sain i encilion y fro, y mae'r ardalwyr yn gwrando, ac yn sefyll mewn distawrwydd. "Nid yw efe yn ei chlywed heddiw," ebai'r naill wrth y llall, "ond yr oedd yn arfer sylwi ar bethau o'r fath."

Fel yna y terfyna'r gan. Dechreu gyda'r cudyll ar y ddraenen, ond yn gorffen yn swn y gloch, a'r gwasanaeth cysegredig sydd yn cyhoeddi'r gwirionedd byth-newydd—"rhaid i'r marwol hwn wisgo anfarwoldeb."

Fel y dywed Robert Lynd, yn ei ragymadrodd penigamp—"Painting today has gone to the cafe, but poetry lingers at the door of the church . . . For what is art but a consolation of exiles by the waters of Babylon?"

Gellid dweyd yr un modd am feddyliau Thomas Hardy. Y maent yn mynd a ni at riniog y deml nas ceuir ddydd na nos. Y mae yn delweddu ei hen gydnabod yn dod ar ddrws y ty ar noson lawn o sêr. "Tybed," meddai, "y bydd i'r meddwl yma godi yn eu calon pan gofiont am danaf?—

"*He was one who had an eye for such mysteries*"?

Felly mae yn edrych yn ol, ar riniog y deml, ac yn ymfalchio, nid mewn enwogrwydd llenyddol, ond yn y ffaith ei fod wedi sylwi ar bethau syml a chyffredin. Ond ni fuasai wedi gwneud hynny heb fod yng nghyfrinach yr anweledig,—

When I came back from Lyonesse
With magic in my eyes.

DAI.

"Bachan bidir yw Dai"!

"Ie! Bachan bidir"! meddai'i fam dan wenu, "ond * * * * ." Dyna gloncy dorch ar yr iet a Dai'n dod i fyny'r lôn fach at y ty dan chwiban. Yr oedd rhywbeth yn agored ynddo fel yr oeddech yn ei hoffi ar eich gwaethaf er yn gwybod

"RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD."

YR YMOFYNNYDD

CYLCHGRAWN MISOL CYMDEITHAS UNDODAIDD
DEHEUDIR GYMRU.

GOLYGYDD—
Y PARCH. T. OSWALD WILLIAMS, M.A., LLANBEDR.

"PROFWCH BOB PETH, DELIWCH YR HYN SYDD DDA."

—CYFRES LLANBEDR.—

CYFROL 26.
1926.

LLANDYSUL:
ARGRAFFWYD GAN J. D. LEWIS, GWASG GOMER.

CYNNWYS.

Adran yr Ysgol Sul, 135.
Apel, 144, 160.
Ar Draws yr Heol, 148.
Arholiad, 105.
Awr gyda Hen Brydydd, 20.

Beca, 86.
Bedydd, 158.

Caeronnen, 11, 109.
Canmlwyddiant Marwolaeth Iolo Morganwg, 187.
Cennin Pedr mewn Llen a Chwedl, 71.
Crefydd y Dyn Cyffredin, 26.
Cyfarfod Chwarterol, 74.
Cyfarfodydd Blynyddol, 139.
Cyfieithwyr y Beibl Cymraeg, 8.
Cyfie'r Bobl i Roi Terfyn ar Ryfel, 69.
Cymanfa Ganu Sir Forganwg, 75, 91, 110.

Dai, 184.
Dan y Dderwen, 118.
Deml, Y, 101.
Dylanwad Cerddoriaeth yng Ngoleu'r Feddyleg Newydd, 99.

Ffarwel, Y, 164.
Ffordd Euraidd Gautama, 163.
Ffwl Ebrill, 72.

Gallt y Wernddu, 156.
Gellionnen, 37.
Gohebwyr, At y, 16, 109.
Golled, Y, 5.
Goludog a Lazarus, 150.
Gwyddor a Chrefydd, 53.
Gylch y Ford Fach, 9, 28, 44, 61, 92.
Gymanfa Ganu, Y, 108.
Gymdeithas Undodaidd Gymreig, Y, 171.

Hwnt ac Yma, 55.
Hwnt i'r Ffin, 103.

Llwybrau'r Saint, 119.
Lyonesse, neu Fro Cyfaredd, 162.

Maes Llafur, 154, 170.
Marwgofion, 15, 30, 46, 62, 76, 93, 110, 125, 142, 159, 174, 188.
Mydryddwyr y Salmau, 42.

Nodion y Golygydd, 1, 17, 34, 49, 65, 81, 97, 113, 129, 145, 161,
Nodion yr Eglwysi, 32, 47, 64, 78, 94, 111, 128, 142, 160, 162, 176.

O Dan y Dderwen, 118.
O Gymru i Ffrainc, 131.
Oriau Cyfaredd, 36.

Panteg a Chwmwrdu, 159.
Pregeth Mr. Phillip Pugh, 117.
Priodasau, 15, 45, 76, 93, 142, 173.

Rhwng Dau Gyfnod, 84.

Santa Clos, 13.
'Slawer Dydd, 40.
'Slawer Dydd, 172.
'Slawer Dydd ar lan Clettwr, 179.
Suspens, 89.
Synagog, 121.

Tair Gweledigaeth o Angeu, 168.
Taith Gasglu, 58.
Testament Newydd Awdurdodedig, 166,
Trem ym Mlaen, 4,
Trosedd a Throseddwyr, 25.

Wil Blaenpant, 22,

Y Nadolig, 192.
Yn y Rhigolau, 152.
Yr Ysbryd, 123.

am ei driciau direidus. Llanc boch goch iach, deg oed ydoedd yn hoff o chwarae, ac unig fab ei fam. Mynnid ei fod wedi'i fagu'n swci ond anghofid hyn pan fyddai angen mynd i neges oherwydd nid oedd debig i Dai ar neges. Yr oedd bob amser yn barod ac o galon garedig. Pe clywsech am dro direidus yn yr ardal, nid oedd angen gofyn nac amau. Yr oedd Dai bob amser yn y man a'r lle. Lawer tro y daeth adref o'r ysgol a'i ddillad yn gareion am dano a'r esboniad oedd nyth pioden ar frig y goeden. Am gneua a physgota, cico pel neu ddringo pren nid oedd ei well. Nid llanc gwirion mohono ychwaith oherwydd yr oedd cystal gyda'i ddwrn a neb yn yr ysgol. Yr oedd yn fodlon arddel ei *lygad du* ond iddo'i gael mewn ffordd deg. Yr oedd hefyd yn ddysgwr tan gamp ond nid oedd yn cydio yn ei waith. Gormod o fynd, gormod o'i fryd ar chwarae dyna i gyd. Serch hynny yr oedd yn ffafryn yn yr ardal oherwydd medrech ddibynnu arno. Dawnsiai direidi yn ei lygad glas ac nid oedd heb ofidio tipyn ar droion ar ei fam ond cilia 'r cyfan yn sŵn ei droed a'i chwerthin iach.

Digon gwir nid oedd yr amgylchiadau'n rhy gysurus arnynt. Sisialai ambell un a ŵyr bob peth fod yr esgyd yn dechreu gwasgu yn Nhan-y-lôn ond ni wyddai neb.

Bwthyn bach to gwellt wedi'i wyngalchu'n felyn, chwedl rhywun, oedd Tan-y-lon. Yr oedd rhywbeth yn gysurus a chartrefol ar yr hen aelwyd a chredai Dai'r byd o'i fam a'i gartref. Dyma'i dduwiau ef ac nid oes alw am ei feio. Ni wyddai ef ddim am amgylchiadau bywyd, a pha blentyn ŵyr ? Ni phoena llanc ieuanc deg oed am ddim o'r fath. Ni buasech yn disgwyl Dai o bawb o leiaf ond gallasech weld wyneb ei fam yn teneuo ; ymddangosai fel pe bai'n heneiddio o ddydd i ddydd. Yr oedd y gwallt yn gwynnu ; mynych glais dan y llygaid glas, a rhyw ddiflastod yn ei threm, dyna i gyd, ac ni sylwodd Dai arnynt. Pwy o'i oedran wnae ?

Ysgydwai ambell gymydog ei ben. Yr oedd yn rhy galonnog iddynt. Ni ddywedent ddim ond "Bachan bidir yw Dai." Ni fedrent. Dyna'r gwir am dano heb os nac onibae.

Ar y noson cyn y Nadolig yr oedd ei fam yn llescach nag arfer. Yr oedd Dai wedi aros yn ddifeddwl ddwywaith i edrych ar ei hol.

"Ydyw," meddai, "nid *consaint* i gyd ta beth," a medrid sylwi fod Dai wedi distewi ychydig dyna i gyd. Ni ddangosodd efe ddim iddi ond teimlai fod rhyw ddrws ynddo a fu nghau'n hir wedi'i agor yn ddisymwth. Teimlai ei hunan wedi heneiddio llawer mewn amser byr. Noswyliodd yn gynnar, yn gynharach nag arfer. Yr oedd am gael amser i feddwl ; meddwl am ei fam. Wrth fyfyrio felly, y mae'n cael ei hun yn gwrando'n astud. Clyw lais yn dod i fyny'r grisiau ato, llais clir a thawel, llais ei fam. Ar weddi y mae a gŵyr Dai fod rhywun gyda'i fam ar yr hen aelwyd. Gwrendy eilwaith. Dyma hanes yr aelwyd, ei gofid a'i gobaith ; dyma galon y fam yn agored o flaen Duw. Y mae'n agor y drws led y pen er i Dduw ei gweld hi a'i bachgen. Distawa'r llais, a thybia yntau glywed llais, llais Duw, o'r hyn leiaf nid llais ei fam yn ateb ei gweddi, a dyma'r geiriau "Bachan bidir yw Dai."

Nid hoffai glwyfo'r galon dyner, a gwyddai fod dagrau yn y llais. Yr oedd yno ragor. Gwyddai fod ei chalon ar dorri a deallodd mai efe ei hun oedd wrth y gwaith. "Dai ! Dai" ! meddai wrtho'i hun a theimlai rywbeth ynddo'n dywedyd "Bachan bidir wyt Dai." Myfyriodd yn hir ar y weddi a'r ateb. Clywodd y cloc ar y silff ben tân yn taro deuddeg a thybia, nad oedd yr hen gloc ond yn ei watwar. Dychmygai fod tic dic y cloc ddim amgen na hwnnw'n ei gyhuddo drwy ddywedyd yn ei ffordd ei hun "Bachan bidir." Heb fod yn hir daeth ei fam i'w ystafell. Cauodd ei lygaid rhag iddi weld ei fod ar ddihun, gan anadlu'n drwm. Safodd wrth erchwyn ei wely gan roi cyllell garnddu yn ei hosan greithiog ac ni allasai beidio a rhoi'i llaw yn dyner ar ei dalcen am ennyd. Bu bron iddo dorri allan a chrio pan deimlodd ddeigryn brwd yn disgyn ar ei law.

Ni wyddai hi fod Dai drwy gil ei lygad yn gweld Santa Clos ac wedi gweld heibio'i fam at *rywun* a safai o'r tu ol iddi yn y cysgod. Tybed ai hwn a ymgomiai a hi ar yr aelwyd gynneu. Yr oedd gwên ar ei wyneb wrth edrych ar y fam ond wrth iddynt ill dau droi i fynd edrychodd ei chydymaith dros ei ysgwydd i gyfeiriad y gwely gan sibrwd yn ddistaw bach "*Bachan bidir yw Dai.*"

* * *

Aeth ugain mlynedd heibio ac ugain mlynedd o ffwdan a gofid. Yn ystod yr ugain mlynedd daeth y Rhyfel Mawr gan gyfnewid llawer ar bob ardal. Yn hyn o beth ni bu Tan-y-lon yn eithriad. Gwelid y fam a fu gynt yn lân a thaclus yn awr yn fudr ac anniben. Anodd yw esbonio. Daeth yr alwad ac aeth Dai gyda'r cyntaf i frwydro dros ei wlad gan adael ei fam. Ni bu hithau byth yr un wedyn. Ryw noson yn Fflandrys gwnaethpwyd *raid* ar ffosydd y gelyn, ac ymhlith y rhai a gynhygiai ei hunain oedd Dai. Bu'n ysgarmes boeth, ond yr oedd y gelyn wedi deall fod rhywbeth i ddigwydd ac yr oeddent yn barod, yn rhy barod i lawer un heblaw Dai. Ymhen amser daeth llythyr i Danylon i ddweyd fod Dai ar goll, gan sôn am ei wroldeb yn nydd y frwydr. Yr oedd deigryn yn llygad y fam wrth ddarllain y llythyr ond ni ddywedodd ond hyn, "Bachan bidir oedd Dai."

Daeth y Rhyfel Mawr i ben, a daeth y rhai oedd ar gael adref ond ni ddaeth Dai i Danylon. Ni chlybu'r fam ddim o'i hanes wedi'r llythyr hwnnw i ddweyd ei fod ar goll. Hir yw pob aros a hithau'n disgwyl yn hir ac ofer. Bob yn dipyn aeth i grwydro'r nos gan alw ar Dai. Ni fynnai cymydogion diolchgar mo'u chlywed yn galw arno ac yn aflonyddu arnynt. Yr oedd y rhyfel drosodd ac nid oedd eisiau Dai odid ar neb. Ni wyddent fod ei eisiau ar ei fam.

Ymhen rhyw *ddeufis* dywedwyd nad oedd yn ei hiawn bwyll, ac er cywilydd i'r genedl a gwarth i rywun agorodd porth y tloty i gau ar ol—Mam Dai. Pwy a wâd nad ydym yn ddiolchgar ?—nid Mam Dai !

Crew od oedd yn y wyrcos a dweyd y lleiaf. Rhai wedi'i dwyn iddi am eu bod yn rhy hên i dramwy'r byd. Ardal garedig yn cofio y rhai a anghofiodd Duw alw adref. Ereill wedi drifto o dafarn i dwlc ac wedi noswylio yma i farw. Ceir ambell un fel Mam Dai a'i thebig ac un fel dafad grwydr wedi'i roi yn y *pownd* heb neb i'w arddel. Pwy yw ? Pwy a ŵyr. O ble y daeth ? Duw yn unig ŵyr ei hanes. Ni ofyn neb ei hynt. Nid oes gar na chyfaill i boeni gwarcheidwad drosto. Dyn yw wedi'i gladdu'n fyw.

Y mae'n noson cyn y Nadolig a'r *crew* yn y wyrcos yn canfod ei seren Ef. Haws yw byw yno wedi cofio am ei fywyd caled ef ac er y sonir llawer am ei enw, anaml y ceir ei wen rhwng y muriau. Hwyrach er nad oedd gan Iesu le i roi ei ben i lawr nad yw wedi cyrraedd y wyrcos eto.

Ymhlith y crew y mae rhywun heb enw arno. No. 13 y'i gelwir am mai dyna rif ei wely. Dywedir fod y rhif hwn yn anlwcus. Nid oeddwn yn ofergoelus cyn gwybod hanes No. 13. Yr oedd golwg bell a gwâg yn ei lygaid. Ni wyddai mo'i enw os bu un arno. Medrai weithio a chai ddangos ei fedr. Rhyw blocyn taro ydoedd i bawb a phawb yn curo arno. Beth oedd y Nadolig i hwn. Nid oedd yn ddim rhagor na rhyw ddiwrnod arall iddo ef. Ceisiai rhyw gydfforddolyn anlwcus esbonio iddo a thrist o beth oedd gwrando arno'n esbonio'r Nadolig mewn wyrcos. Chwarae teg iddo oherwydd nid oes hawl esbonio llawer yno.

"Nadolig ?" meddai No. 13 gan dynnu'i law dros ei dalcen a thybiai'i ffrynd fod golau newydd yn ei lygad ac acen newydd yn ei lais.

Noswyliodd pawb yn gynnar am mai noson cyn Nadolig oedd hwyrach. Ni ddoe cwsg yn agos at No. 13. Sybrydai wrtho'i hun "Nadolig" ! "Nadolig" !

Tybid ei fod yn mynd yn fwy pen ysgafn nag arfer. Codai ar ei eistedd yn y gwely. Yr oedd rhyw sŵn dieithr yn ei glustiau ond ni fedrai

mo'i esbonio—sŵn byddarol fel sŵn daeargrynfeydd anesboniadwy. Teimlai ef ei hun yn cael ei hyrddio drwy'r awyr ac yn disgyn ar ei ben gan anghofio popeth. Y mae'n nesu at hanner nos a chloc mawr y dref yn taro deuddeg.

Ust ! Beth ? Pwy ?

Daw rhyw lais ato gan alw Dai ? Dai ?

Tremia drwy'r tywyllwch a gwel un o'r *inmates*, hen wraig yn sefyll yn y drws, yn cerdded yn ei chwsg ac yn galw "Dai" !

Y mae'i ben yn corddi a'r cyfan yn troi. Edrych heibio'r hen wraig a gwel *rywun* yn eî wyn o'i hol yn ei dal i'r lan.

Ni ddaw Dai a thry hithau ymaith. Wedi iddi droi, y mae'r *rhywun* yn edrych dros ei ysgwydd i gyfeiraid y gwely gan sisial "Bachan Bidir yw Dai."

Ar y foment daw'r cyfan yn glir. Geilw hithau eilwaith "Dai," a thrwy'r tywyllwch y mae No. 13 yn ateb gan waeddi *Mam* ! *Mam* !

* * *

Fore'r Nadolig fe welwyd *dau inmate*, yr hen wraig wirion a diniwed a No. 13 yn mynd fraich ym mraich drwy'r dre i gyfeiriad Tanylon, ac ar yr hen aelwyd wedi'i gadael cyhyd ond y tân wedi'i ail gynneu y noson honno medrid clywed adrodd drwy gawod o ddagrau am Santa Clos yn dwyn Dai y "bachan bidir" yn ol i'w fam.

IOLO MORGANWG.

At Olygydd "Yr Ymofynnydd."

Annwyl Syr,—

Daeth i'm llaw ychydig amser yn ol ddau rifyn o fisolyn Cymraeg a elwid "*Lleuad yr Oes*," a argraffwyd ac a gyhoeddwyd gan un o'r enw J. A. Williams, Argraffydd, Abertawy. Ni wyddwn ddim am y cyhoeddiad hwn o'r blaen. A oes un o ddarllenwyr "Yr Ymofynnydd" sydd yn gwybod hanes cyfnodolion Cymru a rydd air o hanes y misolyn hwn ? Y mae bron a bod yn unffurf a "*Seren Gomer*" mewn llythyren a threfn ei gynnwys. Tybed a amcanwyd i'r cyhoeddiad fod yn gystadleuydd a'r "*Seren*." Y mae y "*Lleuad*" yn lled-awgrymu fod ei amcan i ddiffodd goleuni y "*Seren*." Cefais fod y rhifyn cyntaf yn cael ei ddyddio "Ionawr y 1af, 1827." Meddyliais ar unwaith y gallasai gynnwys rhywbeth am farwolaeth y Bardd o Forganwg, gan fod ei ddyddiad yn ddim ond mis ar ol ymadawiad Iolo. Er fy syndod a'm pleser, cefais fod ynddo hanes ei farwolaeth yn llanw hanner tudalen wedi ei osod mewn ymylon du, llydain. Fe sylwa y darllennydd fod Iolo wedi marw ar y 17eg o fis Rhagfyr ac nid ar y 18fed fel y cofnodir gan ei holl fywgraffwyr yn dilyn Elijah Waring. Darllenir fel y canlyn yn "*Lleuad yr Oes*,"—

Marwolaeth Iolo Morganwg."

"Dydd Sul y 17eg o'r mis diweddaf bu farw Mr. Edward Williams (Iolo Morganwg),—gwr ag y trosglwyddir ei enw i'r oesoedd a ddel gydag enwogrwydd ag y mae ef gwedi ei haeddi yn gyfiawn. Mewn bywiogrwydd a disgleirdeb doniau, ychydig fu ei gydradd, mewn cywirdeb a rhinwedd nid oedd neb yn ei flaenori. Er yn hollol trwy ei hunanddysg, am na fu ddiwrnod yn yr ysgol erioed, ei gyrhaeddiadau oeddynt helaethion

a dyfnion. Cyrhaeddai wybodaeth o'r amrywiol destunau y chwiliau iddynt gyda rhwyddineb rhyfedd, a'i gof oedd mor gryf fel ag yr oedd yn gronicl byw mewn Hanesyddiaeth Frytanaidd. Ei olrhainiadau mwyaf dewisol oeddynt Barddoniaeth ac Hynafiaethau. Cyhoeddodd oddeutu y fl. 1795 ddwy gyfrol o Farddoniaeth yn yr iaith Seisonig, y rhai a dderbyniasant ganmoliaeth gyffredin gan y Saeson. Efe a gyfranodd yn helaeth tuag at amryw gyhoeddiadau perthynol i Gymru. Cyhoeddodd y Salmau yn Gymraeg ar brydyddiaeth lithrig, heblaw amryw ddarnau ereill yn Gymraeg a Saesoneg. Efe hefyd a ysgrifenodd y Rhagymadrodd dysgedig i'r gyfrol gyntaf o'r *Welsh Archaiology*; ac yr oedd yn un o gasglwyr y trysor rhagorol hwnw o ddysgeidiaeth Gymreig; ond y rhan fwyaf o'i waith o lawer sydd yn aros mewn ysgrifen. Galluoedd cryfion ei feddwl oeddynt wedi eu puro a barn gywir, ac a barhausant yn hynod o gedyrn hyd ei hen oedran. Yr amrywiol nodau o barch ag y mae beirdd a dysgedigion penaf ei oes gwedi eu rhoddi iddo sydd yn dangos fod ei enwogrwydd wedi ei adeiladu ar sail dda. Ei rinweddau moesol oeddynt hefyd yn gyfartal mewn cymeradwyaeth; yr oedd yn gyfaill cywir, ac yn amddiffynwr diffuant i heddwch a chariad cymdeithasol; a phob amser yn barod i wneud yr holl ddaioni y caniatai ei amgylchiadau iddo: gweithredoedd o greulondeb at ddyn ac anifail oeddynt ffieidd-dra ei galon. Pawb a ymofynent ei gyngor, a gawsant ynddo ef gynghorwr tadol, cywir, a deallus.

Wrth ei grefft saer maen cyffredin ydoedd, ond yn fuan cyrhaeddodd wybodaeth ragorol o saerniaeth mynor a cherfio; modd bynag, ei ymlyniaid dibaid wrth ddysgeidiaeth a'i rhwystra i gynyddu mewn olrheiniadau ereill. Yr oedd o natur glafaidd o'i fabandod, ac yn dueddol i lawer o anhwylderau; ac a flinid yn fawr gan ddiffyg anadl, yr hyn a'i difuddiodd o orwedd mewn gwely am y 26 mlynedd diweddaf o'i fywyd. Yr oedd yn cyfrif ei oes hir i'w gymedroldeb, bore godi, a'i arferiad o gerdded. Ei ddioddefiadau corfforol oeddynt lymion yn ei flynyddau olaf, ac a gynyddasant fel yr oedd yn nesau at ei ddiwedd; ond yr oedd yn ymfoddloni i drefn Rhagluniaeth. Daeth yn gwbl esmwyth ychydig cyn ei ymddatodiad, ac a anadlodd yr anadl olaf yn ei gadair, heb un ochenaid na chyffro."

D. G. Rees,

Trebanos, *Tachwedd* 16, 1926.

MARWGOFION.

Hydref 25, yn 77 mlwydd oed, James Jones, Clarence House, Cwrtnewydd. Mewn amaethdy yn ymyl Cwrtnewydd y cafodd ei ddwyn i fyny, ond ymadawodd a'r lle hwnw pan oedd yn ieuanc, ac aeth i'r Brif-ddinas. Wedi iddo ymbriodi gwnaeth ef a'i briod eu cartref yno am y cyfnod maith o ddeugain mlynedd. Yr oedd yn ddyn crefyddol, a bu yn ddiacon ac yn drysorydd yn eglwys yr Anibynnwyr ym Moro' Road. Pan roddodd i fyny y swydd o drysorydd yr eglwys honno cafodd dysteb anrhydeddus gan y gynulleidfa. Dengys hynny iddo gyflawni y gwaith a berthynai i'r swydd mewn modd mor ofalus ac effeithiol fel ag i aelodau yr eglwys deimlo rhwymedigaeth i'w gydnabod. Mewn llythyr a anfonodd gweinidog yr eglwys ar ol clywed am ei farwol-

aeth dywedodd am dano ef a'i briod fel y canlyn : " Ni fu cywirach dau na Mr. James Jones a'i briod. Cerddasant ffordd gorchymynion Duw dros eu hoes. Buont yn golofnau yn eglwys y Boro' am flynyddoedd. Rhagorolion y ddaear oeddynt mewn gwirionedd. Pur eu moes, caredig eu nhatur, llednais eu hysbryd, gofalus eu symudiadau, ac yn addolwyr Duw mewn ysbryd a gwirionedd." Tua chwech mlynedd yn ol dychwelodd ef a'i briod i Gwrtnewydd i dreulio gweddill eu hoes yno. Ymaelodasant yng Nghapelybryn a buont yn aelodau ffyddlon yno. Bu Mrs. Jones farw yr haf blwyddyn i'r diweddaf. Effeithiodd ei marwolaeth yn fawr ar Mr. Jones, a gwael fu ei iechyd hyd y diwedd. Gweiniwyd arno yn ei gystudd olaf gan Miss Davies, Penlan Cottage, Cwrtnewydd, a Mrs. Fox o Lundain, a fu mewn cyfeillach agos a Mr. a Mrs. Jones pan oeddynt yn Llundain. Mae Mrs. Fox yn chwaer i Mrs. Evans, Cwrt Fferm. Claddwyd yng Nghapelybryn a gwasanaethwyd gan y Parchn. Lewis Williams, Capelybryn ac E. Glyn Edwards, Seion, Cwrtnewydd.

Ar y 23ain o Hydref, yn 70 oed, bu farw Rachel Davies, Blaenwaunisaf, plwyf Llanwnen. Er fod ei hiechyd wedi ei amharu er's blynyddoedd, eto byr fu ei chystudd olaf. Merch ydoedd i'r diweddar John a Mary Davies, Cefncoed, plwyf Llanwenog ; ac yno y treuliodd hithau y rhan fwyaf o'i hoes. Ychydig flynyddoedd yn ol symudodd i Flaenwaunisaf at ei chwaer a'i nhai ; ar ol colli ohoni ei chwaer, parhaodd i fyw gyda'r olaf hyd ei marw, a chafodd bob gofal a thynerwch ganddo yn ei chystudd olaf. Teulu lluosog fu teulu Cefncoed un adeg, yr oll yn ffyddlon yng Nghapelygroes. Y maent wedi diflannu o un i un, fel nad oes yn aros bellach ond un chwaer a'r nai a enwyd. Dydd Mawrth dilynol cludwyd ei gweddillion i gladdfa Capelygroes, a daeth tyrfa luosog iawn ynghyd i dalu iddi'r gymwynas olaf. Darllenwyd a gweddiwyd yn y ty gan y Parch. Glyn Edwards ; pregethwyd yn y Capel gan D. Evans, gweinidog y lle ; a gweddiwyd ar lan y bedd gan y Parch. L. Williams (da oedd gan bawb i weld yr olaf ar y ffordd i adferiad o'i iechyd ar ol ei waeledd).

Mercher, Hydref y 27ain, yn 75 mlwydd oed, David Bowen, Maesmelyn, Trebanos. Gwelir wrth yr oed fod yr ymadawedig wedi llwyddo i deithio i bum mlwydd yn fwy na'r addewid. Dan oed aeddfeted, anodd peidio sylwi fel y cadwodd ei wallt heb ond ychydig iawn o frithni. Llafuriodd yn galed erioed fel glowr, hyd at yr ychydig o'i flynyddoedd olaf, ym mha rai y gwelwyd ef yn graddol nychu, a'r babell yn datod yn araf a sicr, trwy fod maen ar ol maen yn myn'd o'r mur, nes y daeth yr adeilad hardd yn gydwastad a'r llawr. Ni wyddis iddo erioed fod yn glaf—anarferol oedd ei iechyd a'i hoender. Hoffem wên ei foddhad, ei gwmni difyr, a'i ystori flasus a doniol. Ond mud y siaradwr a'r tafod arian, ac y mae cylch cyfrin yr aelwyd yn dlotach o'r herwydd. Blaenorodd ei gymar ef ychydig flynyddoedd yn ol, a bernir i hynny helpu'i ddolur i'w guro'n drymach. Bu'n aelod o'r gynulleidfa hon am dymor maith. Claddwyd wrth Gellionnen y dydd Sadwrn dilynol, pryd y daeth tyrfa luosog o bell ac agos i dalu teyrnged o barch i'w goffa. Gweinyddwyd gan ei weinidog, y Parch. D. G. Rees, gyda chymorth caredig y Parch. D. Johns, Gosen. Gedy bedwar o blant wedi dod i oedran cyfrifol yn y byd, a dymunwn iddynt y nerth hwnnw oddi uchod, y sydd wedi dal y byd erioed.

Wedi'r ing, wedi'r angau,— daw
heddwch,
A diddan dymhorau,
A daw cor y gororau,
A'n llon Ior i'n llawenhau.

Yno gwelwn uwch gwaeledd,—y dyrfa
Diderfyn a llonwedd,
Yn ifanc mewn tangnefedd,
O wallau byd a gwyll bedd.

Banos.

Hydref 30ain, yn 88 mlwydd oed bu farw Thomas Jonathan, Hampton

House (gynt o Foelallt), Ciliau Aeron. Bendithiwyd ef a chyfansoddiad lluniaidd a iach am oes hir, ac hyd yn oed ar ddiwedd ei yrfa ni fu ei gystudd ond cymharol fyr. Blynyddoedd olaf ei fywyd teimlai wendid hydref ei yrfa yn dechreu gwasgu arno, ond daliodd fyny o dan y profiad yma yn hynod o ysbrydol, ac ysgafn ei feddwl. Diwrnod neu ddau y bu mewn cystudd caled, ac yn ddisymwth ac annisgwyliadwy hedodd ymaith fel gŵr yn mynd i orffwys wedi gwneud ei ddiwrnod gwaith. Yn hydref ei fywyd syrthiodd mor dawel a naturiol ag afal wedi llwyr aeddfedu, wedi rhedeg gyrfa dda o fywyd llawn a gwasanaethgar. Yr oedd gan y gymydogaeth air da iddo, cymydogaeth ag oedd ei linach wedi byw ynddi ar hyd yr oesau. Yr oedd Thomas Jonathan yn ddyn ag oedd wedi gweled llawer mwy na'r cyffredin o'r byd, yn rhinwedd ei alwedigaeth fel amaethwr a gwarthegydd gwyddai am Gymru i gyd a rhan helaeth o Loegr hefyd, felly yr oedd cylch ei adnabyddiaeth yn hynod o eang, a nifer ei gyfeillion yn lluosog, eto cadwodd nodweddion arbennig a gwreiddiol ei bersonoliaeth trwy ei oes. Y mae i'r Foelallt hen hanes y sydd yn mynd yn ol i'r oesau bore yn hanes plwyf y Ciliau; hefyd draddodiad cyfoethog ac ardderchog mewn mwy nag un ystyr, ac fel amaethwr gonest, trylwyr a da trwy ei oes cadwodd i fyny ac ychwanegodd at yr hen hanes hyn yn anrhydeddus. Bu yn ddiwyd, manwl a dyfal gyda gorchwylion cyffredin bywyd, y rhai, fel rheol ag sydd beunydd yn galw am oreu dyn, bydded ei oes yn fer neu faith, ac yn enwedig dyddiau celyd a llafurus yr oesau gynt, ond er ei ddyfalwch a'i ddiwydrwydd gyda'r pethau hyn, ni chollodd ei chwaeth at wneud daioni, na'i ddiddordeb yn agweddau goreu ac uchaf bywyd; o feddwl unplyg a hynod ymarferol credai mewn gwneud gyda phob achos da yr hyn oedd yn ei allu, a'i galon bob amser yn well na'i air. Gwnaeth ei ran fel dyn ac amaethwr; fel priod a thad, ac yn goron ar hyn i gyd ni anghofiodd winllan Duw. Carai achos Duw a'i holl enaid. Bu ef a'r teulu am flynyddoedd lawer yn ffyddlon i'r achos yng Nghapel y Ciliau,—Capel ag oedd yn agos iawn at ei galon; ac wedi i'r teulu gan mwyaf ei adael, ceraint a chyfoedion ei oes ffoi ymaith, bu ef yn ffyddlon yn ei bresenoldeb a'i haelioni i'r diwedd. Heddiw mae'r gadair yn wâg, a dolen ag oedd yn cydio'r gorffennol pell wrth y presennol wedi torri, ond teimlwn yn ddiolchgar am feddwl unplyg; am fywyd ymarferol a da; am galon garedig a hynaws ac am law barod i gynorthwyo pob achos da. Claddwyd yr Iau canlynol yng nghladdfa Dihewyd, pryd y rhoddwyd ei weddillion i orffwys gyda'i briod annwyl ag oedd wedi ei ragflaenu flynyddoedd yn ol. Yr oedd y cynhebrwng yn anghyhoedd ond daeth nifer luosog ynghyd i dalu'r gymwynas olaf iddo. Gwasanaethwyd yn y ty gan y gweinidog yn cael ei gynorthwyo gan y Parchn. D. Evans, Cribyn; E. O. Jenkins, Llwynrhydowen a T. O. Williams, M.A., Brondeifi; yn yr eglwys ac ar lan y bedd gan y Parchn. D. Jones, Ficer yr Eglwys; Alban Davies, Ciliau ac E. J. Evans, Manordeilo. Gadawodd tab, a fu yn dyner wrtho a gofalus iawn am dano yn nyddiau ei wendid a'i gystudd, dwy ferch, dau fab yng nghyfraith—Parchn. Lewis Williams, Alltyblaca a John Evans, offeiriad Mathon, Sir Benfro; dau frawd a chwaer, a lluaws mawr o berthynasau mewn hiraeth a galar ar ei ol. "Heddwch i'w lwch."

Hydref 30, bu farw baban i John ac Eleanor Jones, Esgeringlis, yn ychydig ddiwrnodau oed. Claddwyd yng Nghapelygroes y Llun dilynol.

Hydref 30, bu farw baban i Sally Evans, Pantyronnen, ger Llanwnen, yn wythnos oed. Claddwyd yng Nghapelygroes y Llun dilynol.

Ar y laf o Dachwedd, yn 73 oed, bu farw Anne James, gweddw y diweddar Price James, Claret House, Pencarreg, ar ol cystudd hir a chaled. Yn ystod ei chystudd derbyniodd

bob ymgeledd a thynerwch oddiar law ei hunig ferch a drigiannau gyda hi. Heblaw y ferch, gadawodd dri mab. Bu hi yn fam dyner a gofalus o honynt fel plant, a buont hwythau yn ofalus iawn o honi hithau yn ystod tymor ei gweddwdod. Y mae'r plant i gyd wedi ymsefydlu mewn bywyd, ac mewn safleoedd cysurus—dau o honynt yn gwasanaethu fel athrawon ysgol. Yn ychwanegol, gadawodd dri brawd (un o'r rhai yw William Evans, Felinban) a thair chwaer, mewn galar ar ei hol. Benyw ydoedd a hoffid ac a berchid gan gylch ei hadnabyddiaeth ar gyfrif ei rhodiad cywir. Bu'n aelod ffyddlon o'r Eglwys Fedyddiol yn Aberduar. Dydd Gwener dilynol aed â'i gweddillion i orffwys yn ymyl eiddo ei phriod ym mynwent y capel uchod, y cynhebrwng yn anghyhoedd. Gwasanaethwyd gan ei gweinidog y Parch. D. C. Griffiths, gyda chynorthwy D. Evans, Capelygroes.

Ar y 12fed o Dachwedd, yn 76 oed, bu farw Mary Jones, Drefach, ger Llanwnen, gan adael un brawd ac un chwaer a nifer luosog o berthynasau agos eraill mewn galar ar ei hol. Mwynhaodd iechyd da drwy'i hoes ymron hyd y diwedd; ni fu ei chystudd olaf ond o fyr barhad--ychydig ddyddiau. Am ran fawr o'i hoes bu'n gwasanaethu fel prif forwyn (llaethwraig) mewn lleoedd pwysig, ac enillodd iddi ei hun air da fel morwyn ofalus a deheuig ymhobun o honynt. Amryw flynyddoedd yn ol dychwelodd adref, ac yno y bu hyd y diwedd—yn ddiwyd gyda gwaith y fferm. Benyw dawel, di-son-amdani, o rodiad cywir ydoedd, a pherchid hi'n fawr gan ei hadnabyddiaeth. Bu'n aelod o eglwys Alltyblaca er pan yn ieuanc, a bu'n hynod o ffyddlon hyd y diwedd. Dydd Mawrth dilynol daeth torf luosog ynghyd i hebrwng ei gweddillion i g'addfa'r teulu yn Llanwnen. Yn absenoldeb y Parch. L. Williams oherwydd afiechyd, pregethwyd gan D. Evans, Capelygroes; gweddiwyd wrth y drws gan y Parch. T. O. Williams, M.A., Llanbedr, a gwasanaethwyd yn yr Eglwys a'r fynwent gan y Parchn. J. H. Davies (Ficer) a D. Jones, M.A., Ysgol y Coleg, Llanbedr.

NODION YR EGLWYSI.

HEN DY CWRDD, ABERDAR—Ar y 24ain o Hydref cynhaliodd yr eglwys uchod ei chyfarfodydd Diolchgarwch am y Cynhaeaf. Y tro hwn cafwyd y pleser o wasanaeth y Parch. E. O. Jenkins, Llwynrhydowen fore a'r hwyr, a'r Parch. E. R. Dennis, y gweinidog yn y prynhawn. Cafwyd pregethu grymus a'r ddau frawd mewn hwyl dda. Hefyd er fod yr hin yn annymunol cafwyd cynulliadau da. Nos Lun y 25ain o Hydref traddododd y Parch. E. O. Jenkins ei ddarlith ar "Wil Bryan," dan nawdd Cymdeithas y Bobl Ieuainc. Byw a digri iawn oedd desgrifiad y darlithydd o'r cymeriad hynod hwn, ond eto, disgleiria'r boneddwr yn eglur drwyddo, ac fel y cynghorai Wil ei hun i fod yn "True to nature" felly y dylasem ninnau oll fod. Pe cofiai pawb y cyngor hwn credaf y buasai gwell graen ar ein bywyd eglwysig a chymdeithasol, a doi terfyn ar bob ymryson. Cafwyd cynhulliad rhagorol iawn, a phawb wedi eu boddloni. Mawr oedd y dymuniad am glywed Mr. Jenkins yn y cyfeiriad hwn yn fuan eto.

RHYDYGWIN.— Cynhaliwyd yr Wyl Ddiolchgarwch eleni dydd Mercher, 13eg o Hydref. Pregethwyd yn y ddau gyfarfod gan y Parch. E. O. Jenkins i gynhulliadau lluosog. Cafwyd pregethau pwrpasol a chasgliadau da at y Gymdeithas Brydeinig a Thramor.

CILIAU.—Ar y 15fed o Hydref cawsom ein Cyfarfod Diolchgarwch, pryd y gwasanaethwyd gan y Parch. T. Arthur Thomas i gynhulliad lluosog. Y casgliad yn dda at y Gymdeithas Saesneg fel arfer.

ALLTYBLACA, CAPELYBRYN, A CWM.—Cynhaliwyd Cyfarfodydd Diolchgarwch yn yr eglwysi uchod, a gwasanaethwyd yn y blaenaf gan y Parch. T. O. Williams, M.A., Llanbedr; yn yr ail gan y Parch. E. O. Jenkins, Llwynrhydowen, ac yn yr olaf gan y Parch. E. Glyn Edwards, Seion, Cwrtnewydd.

Y GRAIG A GELLIONNEN.— Yn yr Ysgoldy Nos Iau, Hydref 14, dan nawdd Cymdeithas Ddiwylliadol y lle, traddododd y Parch. D. G. Rees anerchiad ar y testun—"Gwilym Marles, ei neges a'i waith," i gynhulliad dymunol, dan lywyddiaeth Mr. David Thomas, Pentre Hywel. Gellir dweud i Mr. Rees lwyddo'n dda efo'i destun. ac iddo, trwy lawer iawn o ymdrech ac aberth, gasglu wmredd o adnoddau a manylion, nad ydynt erioed wedi ymddangos yn y wasg. Siaradwyd gan rai o'r aelodau ar yr anerchiad, a chawd cyfarfod da.

Cynhaliwyd Cyrddau Pregethu Blynyddol, eto'n y Graig, nos Sadwrn, y Sul a nos Lun, Hydref 30, 31; a Thachwedd 1. Pregethwyd gan y Parchn. D. Conwil Evans, Ciliau Aeron a J. D. Jones, B.A., Pontypridd. Cafwyd amser ardderchog; llonaid teml o bobl wrandawus, pregethau cymeradwy a chasgliadau hael at yr achos.

Yma hefyd y cynhaliwyd Cyrddau Chwarter y Gymdeithas Undodaidd Gymreig fel y gwelir yn ol "YR YMOFYNNYDD" Tachwedd.

Y NADOLIG.

CAN y clychau dros y fro
Am ddyfod Gwyl y Geni;
Cadw dithau'r gainc mewn co
Ar hyd yr wyl eleni;
Gwell nag arfer fo dy ffawd,
A'th wledd o dan y celyn:
Rho dy rodd yn llaw y tlawd,
A'th law yn llaw dy elyn.

Eifion Wyn.

* * *

Mewn capel cêl dan bulpud plaen
Gwelais werinwr ar ei lin,—
A Gwyrfai wyllt wrth lifo 'mlaen
Yn lleisio'n lleddf dros gerrig llyfn.
Ni welais Grist na dwylo Duw
O flaen addolwr garw'r tir;
Sibrydai'r afon: "Ysbryd yw,"
"Ysbryd yw Ner," sybrydwn i.

T. H. P-Williams.

* * *

Y MAE'N dda bod yn blant ambell dro ond nid un amser yn well na'r Nadolig pan oedd y Sylfaenydd Mawr ei hun yn blentyn.—*Dickens.*

Y MAE cydwybod dda yn Nadolig parhaus.—*B. Franklin.*

* * *

TRY'R diwrnod hwn bob gofid a chweryl yn gariad.—*Shakespeare.*

* * *

NA omeddwch i'r plant eu Nadolig. Dyma'r sêl ddisglair ar flwyddyn o hapusrwydd. Gwnewch iddynt gredu yn Santa Clos, neu Saul Nicholas neu Krisi Krugle neu ba enw bynnag a ddwg y sant doniol o'r Iseldiroedd yn eich crefydd chwi.—*Marion Harland.*

* * *

PRIF swyn y Nadolig yw ei symlrwydd. Gwyl ydyw a apelia at bawb am fod pawb yn ei ddeall. Y mae brawdoliaeth wir drwy'n bywyd cyffredin, brawdoliaeth-ffynhonnell yr hon yw ein rhan gyffredin yn rhodd bywyd mwyaf y byd a roddwyd i'r holl fyd.—*A. R. Kimball.*

J. D. Lewis, Argraffydd, Gwasg Gomer, Llandysul.

JUST PUBLISHED.

Crown 8vo. Cloth 2/- net, Stiff Covers, 1/6 net.

THE AUTHOR OF

NEARER, MY GOD, TO THEE

(SARAH FLOWER ADAMS)

By H. W. STEPHENSON, M.A.

The illustrations include a reproduction in facsimile of the original M.S. of the hymn, "Nearer, my God, to Thee."

This Hymn, which first appeared in the Hymn Book of the South Place Unitarian Chapel, Finsbury, E.C., is more widely known than any other by a Unitarian writer. It is the expression of a faith that had endured many doubts and, at one time, seemed as though it would pass utterly away. This Memoir brings together all that is known of the life story of Mrs. Adams. Ministers and Teachers in Sunday Schools will do well to add it to the books already on their shelves; they will find it not only readable but useful as well.

Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, W.C. 2

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS; etc., Rose Trees, Tomato Plants, Begonias, Geraniums, Lobelias, Palms, Ferns, etc.

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1875)

Importer of Dutch Bulbs, Seedsman and Florist, CARMARTHEN.

Telegrams—COYSH, Carmarthen.

IT WILL PAY YOU TO SEE OUR HUGE SELECTION OF WINTER GOODS BEFORE YOU BUY. . . .

E. LLOYD JONES

Bradford House, Llandyssul.



A Complete Banking Service

The Midland Bank offers exceptional facilities for the transaction of banking business of every description through 1850 branches covering all important agricultural, commercial, industrial and residential districts in England and Wales.

Deposit accounts may be opened in amounts of £1 and upwards, and interest is allowed at current rates.

The Branch at 9 Lincoln Street, Llandyssul, is open every week-day, from 10 a.m. to 12 noon on Saturday and from 10 a.m. to 3 p.m. on other days.

MIDLAND BANK

LIMITED

HEAD OFFICE : 5 THREADNEEDLE ST., LONDON, E.C.2

Affiliations : Belfast Banking Co. Ltd., Northern Ireland ; The Clydesdale Bank Ltd., and North of Scotland Bank Ltd., Scotland ; Midland Bank Executor and Trustee Co. Ltd.

C 1927

Cyfres Llanbedr | IONOR, 1927 | Cyf. 27. Rhif 1.

Profwch bob peth — Rhyddid: Gwirionedd: Cariad. — Deliwch yr hyn sydd dda

Yr Ymofynnydd.

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Y. Golygydd: Y. Parch. T. Oswald Williams.

— Cynnwys. —

ANNERCH I'R FLWYDDYN NEWYDD.
NODION Y GOLYGYDD.
SYMPOSIUM.
COLEG CAERFYRDDIN.
TABLED COFFA IOLO MORGANNWG.
YR YSGOL SUL YN NIWYLLIANT GWERIN CYMRU HEDDIW.
MARWGOFION.
NODION YR EGLWYSI.

Y Gwirionedd a'ch rhyddha chwi.

Argraffwyd gan J. D. Lewis Gwasg Gomer Llandysul.

YR YMOFYNNYDD.

Pris 3c. y mis ; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—Y Parch. T. Oswald Williams, M.A., Lampeter.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. Lewis, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

Y Geiriadur Beiblaidd.

Gellir cael yr uchod yn awr wedi ei rwymo yn gyflawn mewn Dwy Gyfrol hardd. . . .

Dwy Gyfrol—Canvas Cloth, Gilt Lettered, £2/2/- y Set.
Dwy Gyfrol—Quarter Levant Morocco, Gilt Lettered, £2/10/- y Set.

I'w cael o Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

.. RICHARD PRICE ..

Philosopher and Apostle of Liberty.

Gan ROLAND THOMAS, M.A.
Cyfarwyddwr yr Ysgol Wyliau Gymraeg.

Gwasg Prifysgol Rhydychain, 5/-. ; *Drwy'r Post*, 5/5.

Anfoner i Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

T. E. Jones, & Co.

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers and Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, etc.